Yr Amgylchedd – ein hymrwymiad

Mae ein Datganiad Polisi Byd-eang Amgylcheddol yn amlinellu ein hymrwymiad i reoli a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd, byddwn yn ailbwysleisio ein hymrwymiad i'r Datganiad hwnnw, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y canlynol:

- ymgysylltu â'r sefydliad er mwyn sicrhau y caiff effeithiau amgylcheddol ein gwaith eu hasesu ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd.
- annog dewis opsiynau cynaliadwy a moesegol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau
- lleihau effaith amgylcheddol ein hystâd, lleihau a rheoli effaith amgylcheddol ein safleoedd yn y dyfodol a, lle y bo'n bosibl, caffael yn gynaliadwy ac ystyried rheoli'r amgylchedd â'r arfer gorau
- lleihau ein defnydd o ynni a dŵr, a'r allyriadau carbon sy'n deillio o hyn
- lleihau gwastraff drwy ymgorffori hierarchaeth gwastraff sef 'lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu'
- monitro a lleihau effaith amgylcheddol ein teithiau at ddibenion busnes
- defnyddio ein sgiliau a'n cryfderau creadigol fel sefydliad byd-eang i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol ac ymgorffori themâu datblygu cynaliadwy yn ein gwaith.



Llofnodwyd: Martin Davidson (Prif Weithredwr) Diwrnod Amgylchedd y Byd

Dyddiad: Dydd Iau 5 Mehefin 2014